RHWYDWAITH TAI'N GYNTAF CYMRU

# SIARTER TAI YN GYNTAF

## AR GYFER CYMDEITHASAU TAI

MAWRTH 2020

cymorth cymru
cysylltu • cryfhau • dylanwadu

# CWMPAS Y SIARTER

**Datblygwyd y Siarter hon gan Is-grŵp Rheoli Tai Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru (sy'n cynnwys uwch-gynrychiolwyr rheoli tai o Gymdeithasau Tai ac awdurdodau lleol ledled Cymru sy'n berchen ar stoc), gyda chefnogaeth gan Cymorth Cymru a rhanddeiliaid eraill.**

Mae darpariaeth gyson o dai safonol a gwasanaeth rheoli tai ledled Cymru yn holl bwysig i sicrhau bod Tai yn Gyntaf yn cael ei gyflenwi'n llwyddiannus ar raddfa briodol. Nod y Siarter hon yw annog darparwyr tai i ymgysylltu â chyflenwi gwasanaethau Tai yn Gyntaf ar raddfa briodol ledled Cymru, a chroesawu'r rhan y byddant hwy'n ei chwarae yn natblygiad a chynnydd y modd y bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu cyflenwi'n llwyddiannus.

Mae'r Siarter hon yn nodi'r gofynion allweddol y bydd llofnodwyr darparwyr tai (Cymdeithasau Tai ac Awdurdodau Lleol fel ei gilydd) yng Nghymru yn eu dilyn pan fyddant yn darparu llety i bobl sy'n ymgysylltu â gwasanaethau Tai yn Gyntaf. Bydd hyn yn galluogi gwasanaethau i gael eu darparu'n llwyddiannus ar raddfa briodol, gan lynu mor glòs â phosib at Egwyddorion Tai yn Gyntaf yng Nghymru.

Nid yw'r Siarter hon yn gynhwysfawr o bell ffordd; cafodd ei chynllunio i ddangos prif elfennau darparu tai, rheoli tai a'r rhyngweithio gyda gwasanaethau cymorth a ddylai olygu bod gwasanaethau Tai yn Gyntaf yn cael eu cyflenwi'n llwyddiannus ar raddfa briodol yng Nghymru.

Mae'r Siarter hon yn uchelgeisiol, a'i nod yw rhoi'r sail gorau i ddarparwyr gwasanaeth i'w galluogi i gyflenwi gwasanaethau Tai yn Gyntaf ar raddfa briodol yng Nghymru.

# YR EGWYDDORION

**Mae crynodeb llawn o'r egwyddorion ar gael yn y ddogfen Egwyddorion Tai yn Gyntaf. Er hwylustod, maent hefyd wedi eu nodi isod.**

- Mae gan bobl hawl i gael cartref sy'n fforddiadwy, yn ddiogel, mewn cyflwr priodol, yn addas yn gorfforol ac yn ddiwylliannol, a lle mae gwasanaethau ar gael (yn unol â Chyfamod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol).
- Mae tai a chymorth yn cael eu gwahanu.
- Mae'r gwasanaeth yn cael ei dargedu at bobl sy'n dangos partrwm cyson o fethu cynnal llety mewn hostel a/neu bobl sy'n cysgu allan neu sy'n cael mynediad at lety argyfwng.
- Mae cymorth hyblyg ar gael cyhyd ag y bo angen amdano.
- Defnyddir dull o ymgysylltiad gweithredol.
- Mae gan unigolion Ddewis a Rheolaeth.
- Mae'r dull gweithredu'n ymwneud â lleihau niwed.
- Cyflenwir y gwasanaeth mewn dull seicolegol-wybodus, trawma-wybodus, rhywedd-wybodus sy'n sensitif ac yn ymwybodol o nodweddion gwarchodedig.
- Mae'r gwasanaeth yn cael ei seilio ar gryfderau pobl, eu nodau a'u dyheadau, ac oherwydd hynny mae iddo ymrwymiad pendant i lwyth gwaith bychan.
- O'r cychwyn cyntaf, mae'r ystod ehangaf posib o wasanaethau cyhoeddus yn rhan o'r gwaith.

# TELERAU'R SIARTER

## 1. DEWIS O EIDDO

Byddwn yn cynnig llety o safon i'r rhai sy'n ymgysylltu â gwasanaethau Tai yn Gyntaf. Caiff eiddo ei ddyrannu i ddefnyddwyr gwasanaethau Tai yn Gyntaf yn seiliedig ar ddewis Gwybodus. Byddwn yn helpu darparwyr sy'n cynnig cymorth i unigolion sy'n ymgysylltu â gwasanaethau Tai yn Gyntaf i wneud dewis gwybodus o ran y lle mwyaf addas iddynt fyw, o fewn eu modd i dalu.

Derbyniwn y gall rhai unigolion ddewis byw mewn ardaloedd lle roedd ganddynt gysylltiad yn y gorffennol, neu lle nad oedd ganddynt gysylltiad. Beth bynnag fo'r amgylchiadau, lle bo hyn yn ddewis gwybodus, a lle nad oes unrhyw gyfyngiadau statudol, byddwn yn cefnogi'r broses i sicrhau bod gan yr unigolyn Ddewis a Rheolaeth. Byddwn yn parhau i gynnig eiddo hyd nes y deuir o hyd i le priodol, ac ni fydd gwrthod eiddo yn effeithio ar gyfle person i gael cynnig rhagor o opsiynau.

## 2. DYRANIADAU

Byddwn yn gweithredu'n rhagweithiol i ddarparu Dewis a Rheolaeth i'r rhai sy'n ymgysylltu â gwasanaethau Tai yn Gyntaf. Byddwn yn gweithredu'n rhagweithiol a hyblyg o fewn Polisïau Dyrannu Awdurdodau Lleol i sicrhau bod eiddo ar gael i'r gwasanaethau Tai yn Gyntaf. Byddwn yn gweithredu'n rhagweithiol i gefnogi'r defnydd o Tai yn Gyntaf fel un o'r dulliau dewisol o gefnogi pobl sy'n cael eu heffeithio gan gysgu hirdymor ar y stryd, a byddwn yn cefnogi gweld hyn yn cael ei adlewyrchu ym Mholisïau Dyrannu yr Awdurdodau Lleol. Byddwn yn sicrhau na fydd eiddo Tai yn Gyntaf yn cael eu clystyru mewn un lleoliad daearyddol, fel bod cymunedau'n gytbwys.

## 3. RHENTI

Bydd y rhenti ar gyfradd tai safonol, fforddiadwy, yn unol â pholisïau rhent Llywodraeth Cymru. Ni fydd unrhyw gostau rheoli tai na chostau cymorth eraill yn cael eu hychwanegu at y rhent na'r tâl gwasanaeth yng nghyd-destun cyflenwi gwasanaeth Tai yn Gyntaf.

Bydd unrhyw asesiadau fforddiadwyedd yn cael eu seilio ar incwm tebygol yn y dyfodol (unwaith maent wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth) ac ni fydd llety'n cael ei wrthod na'i ddal yn ôl yn seiliedig ar yr incwm cyfredol. Rydym yn derbyn y posibilrwydd na fydd y rhai sy'n ymgysylltu â gwasanaethau Tai yn Gyntaf yn derbyn budd-daliadau lles nac unrhyw incwm arall pan fyddant yn dechrau ar eu tenantiaeth. Ni ddylai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ddisgwyl y bydd y rhent yn cael ei dalu fis o flaen llaw.

## 4. CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH

Byddwn yn anelu at ddefnyddio Cytundeb Lefel Gwasanaeth sy'n cynnwys y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n berthnasol i'r darparwyr tai, cymorth, comisiynydd y gwasanaeth, ac unrhyw asiantaethau perthnasol eraill sy'n cefnogi'r gwasanaeth, e.e. Iechyd neu'r Heddlu. Bydd hyn yn galluogi pob carfan i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau penodol hwy o fewn y broses o gyflenwi'r gwasanaeth Tai yn Gyntaf, yn cynnwys cytundebau ar sut i ddatrys gwrthdaro neu anghydfod rhwng y gwahanol bartïon sy'n rhan o gyflenwi'r gwasanaeth.

## 5. LLWYBRAU A FFYNONELLAU O GYLLID

Gall y cyllid ar gyfer darparu cymorth yn y gwasanaethau Tai yn Gyntaf ddod o nifer o wahanol ffynonellau, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a gwasanaethau hunan-gyllidol, neu o ymddiriedolaethau elusennol neu sefydliadau sy'n cynnig grantiau. Rydym yn derbyn ac yn deall bod ffynonellau o arian yn eu hanfod yn aml yn gyfyngedig o ran amser. Lle bo amgylchiadau'n codi lle nad yw cyllid parhad ar gael i gyflenwi'r gwasanaeth Tai yn Gyntaf, byddwn yn gweithredu mewn modd rhagweithiol gyda'r darparwr gwasanaeth, Llywodraeth Cymru, yr awdurdod lleol ac unrhyw sefydliadau perthnasol eraill, i ddod o hyd i ddatrysiad sy'n gwarchod yr holl bartïon, ac yn fwyaf pwysig y bobl hynny sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaeth Tai yn Gyntaf.

Lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn ychwanegu astudiaethau achos a dadansoddiadau cost-budd at y dogfennau ariannu, er mwyn rhannu a dangos arfer da.

## 6. DOSBARTHIAD EIDDO

Bydd unrhyw eiddo a ddyrennir ar gyfer gwasanaethau Tai yn Gyntaf yn cael eu dosbarthu fel Anghenion Cyffredinol i bwrpas Budd-dal Tai. Ni fydd y dosbarthiad Llety Penodol neu Eithriedig yn cael ei ystyried, gan na chymerir i ystyriaeth y ffioedd ychwanegol am reoli tai a ychwanegir at y rhent. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod yr eiddo'n fforddiadwy ac nad yw'n cael ei ystyried fel tai â chymorth.

## 7. ÔL-DDYLEDION HANESYDDOL

Byddwn yn ystyried dileu yn llwyr unrhyw ôl-ddyledion hanesyddol. Lle nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn annog y defnydd o gyllidebau unigolyddol, ac yn gweithio gyda'r awdurdod lleol perthnasol i ddod o hyd i ffynhonnell ariannol i leihau neu glirio unrhyw ôl-ddyledion hanesyddol. Lle na ellir clirio ôl-ddyledion hanesyddol yn llwyr, byddwn yn creu cynllun talu sy'n rhesymol, fforddiadwy a chyraeddadwy er mwyn clirio'r balans sy'n weddill. Ni fyddwn yn atal dyraniadau o ganlyniad i ôl-ddyledion sy'n dal i sefyll.

## 8. HDYLEDION HANESYDDOL

Byddwn yn ystyried dileu yn llwyr unrhyw ddyledion hanesyddol am ddifrod, ffioedd cyfreithiol neu gostau eraill tebyg. Lle nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn annog y defnydd o gyllidebau unigolyddol ac yn gweithio gyda'r awdurdod lleol perthnasol i ddod o hyd i ffynhonnell ariannol i leihau neu glirio unrhyw ddyledion hanesyddol. Lle na ellir clirio dyledion hanesyddol yn llwyr, byddwn yn creu cynllun talu rhesymol, fforddiadwy a chyraeddadwy er mwyn clirio'r balans sy'n weddill. Ni fyddwn yn atal dyraniadau o ganlyniad i ddyledion sy'n dal i sefyll.

## 9. YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL HANESYDDOL

Rydym yn derbyn y gall pobl sy'n ymgysylltu â gwasanaethau Tai yn Gyntaf fod â phroblemau ymddygiad gwrth-gymdeithasol hanesyddol. Ni fyddwn yn afresymol yn gwrthod darparu llety i bobl yn seiliedig ar eu problemau ymddygiad gwrth-gymdeithasol hanesyddol, ar y ddealltwriaeth bod yr adnoddau cefnogi sydd ar gael i rai sy'n ymgysylltu â gwasanaethau Tai yn Gyntaf yn sylweddol, ac y byddant yn adnodd i atal problemau yn y dyfodol.

Lle bo person sy'n ymgysylltu â Tai yn Gyntaf yn mynegi Dewis ar ble i fyw, ac yn dymuno byw mewn ardal lle roeddynt cyn hynny wedi cyflawni ymddygiad gwrth-gymdeithasol, byddwn yn cefnogi gwneud dyraniad gwybodus ar eiddo, yn seiliedig ar Egwyddorion Tai yn Gyntaf Cymru.

## 10. YMGYSYLLTIAD Â CHYMORTH

Rydym yn derbyn y disgwylir i bobl sy'n ymgysylltu â gwasanaethau Tai yn Gyntaf wneud dim ond bod yn fodlon cynnal tenantiaeth. Mae'n debygol y bydd yr ymgysylltiad â phobl yn y gwasanaethau Tai yn Gyntaf yn ddwys ar y cychwyn, gyda'r ymweliadau cymorth o bosib yn lleihau i leiafswm o unwaith bob pythefnos.

Ni fyddwn yn gorfodi unrhyw brofion nac asesiadau i baratoi ar gyfer cael tai ar bobl sy'n cael mynediad at lety. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau cyn-denantiaeth neu hyfforddiant symud-ymlaen cyn cael mynediad at lety (a allai fod yn rhwystr i bobl sy'n cael mynediad i wasanaethau Tai yn Gyntaf).

## 11. LLEIHAU NIWED

Byddwn yn sicrhau bod y polisïau a ddefnyddir wrth gyflenwi'r gwasanaeth Tai yn Gyntaf sy'n ymwneud â defnydd personol o sylweddau yn gyson â dull o leihau niwed.

## 12. RHANNU GWYBODAETH

Rydym yn ymrwymo i rannu a gofyn am yr wybodaeth briodol sy'n sicrhau bod risgiau'n cael eu hasesu'n foddhaol. Defnyddir pob gwybodaeth o fewn canllawiau GDPR. Byddwn yn ymrwymo i unrhyw Brotocolau Rhannu Gwybodaeth sy'n cyfeirio at ddarparu Tai yn Gyntaf, ac yn diwygio ein hysbysiadau preifatrwydd yn ôl yr angen. Byddwn yn rhagweithiol yn y modd y byddwn yn gweithredu gyda phob parti sy'n rhan o'r gwaith o fonitro effaith gwasanaethau Tai yn Gyntaf trwy ddarparu data perthnasol, sut bynnag a phryd bynnag y gofynnir amdano.

## 13. CYTUNDEBAU TEIR-RAN

Byddwn yn rhagweithiol yn ein defnydd o Gytundebau Teir-ran gyda'r darparwr gwasanaeth a'r awdurdod comisiynu perthnasol er mwyn rheoli'r perthnasoedd hyn mewn ffordd effeithiol er budd yr unigolion sy'n ymgysylltu â gwasanaethau Tai yn Gyntaf.

## 14. COFNODION TROSEDDOL

Ni fyddwn yn gofyn am wiriadau cofnodion troseddol, a byddwn yn dibynnu ar wybodaeth a ddarperir yn rhwydd gan y darparwr cymorth, awdurdod lleol ac unrhyw asiantaethau eraill sy'n darparu cymorth i'r rhai hynny sy'n ymgysylltu â gwasanaethau Tai yn Gyntaf. Lle bo sefyllfaoedd yn codi a allai rwystro neu gyfyngu defnyddiwr gwasanaeth Tai yn Gyntaf rhag byw mewn ardaloedd penodol, byddwn yn cydweithio mewn modd rhagweithiol gyda'r asiantaethau perthnasol i sicrhau ein bod yn dod o hyd i eiddo mewn ardal briodol.

## 15. STEERING GROUPS

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i ymgysylltu â grwpiau llywio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n berthnasol o ran darparu tai ar gyfer gwasanaethau Tai yn Gyntaf yng Nghymru.

## 16. CYHOEDDUSRWYDD

Byddwn yn rhagweithiol wrth roi cyhoeddusrwydd i'n hymgysylltiad a'n hymrwymiad i gyflenwi gwasanaethau Tai yn Gyntaf yn ein llety ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Byddwn yn rhagweithiol hefyd wrth ddarparu diweddariadau i'r Rhwydwaith Tai yn Gyntaf ar lwyddiannau, heriau a methiannau cyflenwi gwasanaethau Tai yn Gyntaf.

## 17. CYDWEITHIO

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i weithio gyda chynifer ag y bo modd o bartneriaid sy'n cyflenwi prosiectau lleol a rhanbarthol Tai yn Gyntaf, gan ddefnyddio ein stoc ein hunain o dai.

## 18. GWAHANU TAI A CHYMORTH

Mae angen sicrhau'r bobl sy'n cael mynediad at Tai yn Gyntaf bod y darparwr cymorth yno i ganolbwyntio'n llwyr ar eu problemau cymorth, ac na fydd hyn yn effeithio ar eu sefyllfa o ran cael tŷ. Er enghraifft, ni fydd y gweithiwr cymorth yn cyflenwi na gorfodi gweithgareddau Rheoli Tai, e.e. casglu rhent neu ymddygiad gwrth-gymdeithasol, oni bai eu bod yn gweithredu fel eiriolwr ar ran y person sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth Tai yn Gyntaf.

Er mwyn sicrhau ein bod yn glynu mor glòs â phosibl at egwyddorion Tai yn Gyntaf, ni fydd gennym ddylanwad mawr ar y modd y darperir cymorth i unigolion sy'n ymgysylltu â gwasanaethau Tai yn Gyntaf. Rydym yn derbyn nad yw darparu tai yn dibynnu ar ymgysylltiad â chymorth o fewn gwasanaethau Tai yn Gyntaf.

## 19. LLETY AMGEN

Lle bo defnyddiwr gwasanaeth Tai yn Gyntaf wedi methu cynnal eu tenantiaeth yn ein llety ni, byddwn yn gwneud pob ymdrech i weithio gyda'r darparwr gwasanaeth i ddod o hyd i eiddo arall, naill ai o'n stoc ein hunain neu gan ddarparwr tai arall. Derbyniwn nad yw pob tenantiaeth Tai yn Gyntaf yn llwyddiannus, ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu llety ar gyfer y rhai sy'n cael mynediad i'r math yma o wasanaeth, beth bynnag fo'r problemau a gafwyd yn y gorffennol. Ni fyddwn byth yn troi cleientiaid Tai yn Gyntaf allan i ddigartrefedd.

## 20. DATBLYGU EIDDO

Lle bo modd, byddwn yn rhagweithiol wrth geisio datblygu neu ail-ddatblygu eiddo sy'n cwrdd ag anghenion pobl a effeithir gan ddigartrefedd ac sy'n ymgysylltu â gwasanaethau Tai yn Gyntaf, yn unol â gofynion y strategaeth tai leol.

## 21. TENANTIAETHAU

Bydd y tenantiaethau a roddir i gleientiaid Tai yn Gyntaf yr un fath â'r rhai a roddir i denantiaid Anghenion Cyffredinol. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn dewis cynnig llety drwy ein hasiantaeth Sector Rhenti Preifat (PRS) ni ein hunain (lle bo hynny'n berthnasol); yn yr achos hwnnw, bydd y denantiaeth yr un fath â'r rhai a roddir i unrhyw un sy'n cael mynediad at y llety trwy ddilyn y llwybrau arferol.

## 22. ARWEINYDD DYNODEDIG

Byddwn yn dewis Arweinydd Dynodedig Tai yn Gyntaf o blith ein Uwch-dîm Rheoli, a bydd y person hwnnw'n arwain ar weithredu egwyddorion Tai yn Gyntaf mewn dull cyson. Bydd yr Arweinydd Dynodedig yn gyfrifol am ddatblygu perthynas gyda darparwyr cymorth yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ac yn ceisio datrys unrhyw wrthdaro neu broblemau sy'n codi wrth gyflenwi gwasanaethau o fewn ein stoc tai. Gall yr Arweinydd Dynodedig newid o bryd i'w gilydd, a byddwn ni'n darparu'r manylion diweddaraf i'r asiantaethau perthnasol yn ôl yr angen.

# Y CAMAU NESAF

Ar y dudalen nesaf mae yna gopi o'r Siarter Rheoli Tai. Os hoffech holi unrhyw gwestiynau cyn i chi ymrwymo, mae croeso i chi gysylltu'n uniongyrchol â Cymorth Cymru. Pan fyddwch wedi arwyddo, tynnwch lun a'i gyhoeddi ar eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, anfonwch e atom ni i'w gynnwys yn ein cylchlythyrau rheolaidd, a helpu i roi hwb i'r gwaith o weithredu Tai yn Gyntaf ledled Cymru.

**AM YMHOLIADAU YNGHYLCH TAI YN GYNTAF, CYSYLLTWCH Â:**
**POLICY@CYMORTHCYMRU.ORG.UK**

# Y SIARTER
## GWEITHREDU TAI YN GYNTAF

Mae ___________________________________ yn cytuno i ddarparu cartrefi o safon a gwasanaethau rheoli tai yn unol â’r 22 amod yn y Siarter hwn, gan alluogi gwasanaethau Tai yn Gyntaf i gael eu cyflenwi ar raddfa briodol yng Nghymru.

Rydym yn ymrwymo i ddarparu o leiaf _______________ eiddo ar gyfer cynlluniau Tai yn Gyntaf, a byddwn yn parhau i ymrwymo i ddarparu tai ar gyfradd a fydd yn cwrdd â’r galw lleol.

## THE CONDITIONS OF THE CHARTER

1. Dewis o eiddo
2. Dyraniadau
3. Rhent
4. Cytundebau Lefel Gwasanaeth
5. Llwybrau a ffynonellau o gyllid
6. Dosbarthiad eiddo
7. Ôl-ddyledion hanesyddol
8. Dyledion hanesyddol
9. Ymddygiad gwrth-gymdeithasol hanesyddol
10. Ymgysylltiad â chymorth
11. Lleihau niwed
12. Rhannu gwybodaeth
13. Cytundebau teir-ran
14. Cofnodion troseddol
15. Grwpiau llywio
16. Cyhoeddusrwydd
17. Cydweithio
18. Gwahanu Tai a Chymorth
19. Llety amgen
20. Datblygu eiddo
21. Tenantiaethau
22. Arweinydd dynodedig

### PRIF WEITHREDWR NEU GYFWERTH

| Arwyddwyd | Printiwyd | Dyddiad |
|---|---|---|

### ARWEINYDD DYNODEDIG

| Arwyddwyd | Printiwyd | Dyddiad |
|---|---|---|

Anfonir copïau wedi eu harwyddo at Cymorth Cymru (ysgrifenyddiaeth ar gyfer Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru) a byddant yn cael eu defnyddio i hyrwyddo’r gwaith o gyflenwi Tai yn Gyntaf yng Nghymru.